cyngor y
proffesiynau
iechyd a gofal

# HCPC
# Cynllun Corfforaethol
# 2024–25

# Neges gan ein Prif Weithredwr a Chofrestrydd



Bernie O'Reilly
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Rydym yn cyrraedd dwy flynedd olaf ein Strategaeth Gorfforaethol 2021–26. Dyma Gynllun Corfforaethol cyntaf yr HCPC i mi ei gyhoeddi fel Prif Weithredwr, ond nid yw hynny'n golygu bod newid cyfeiriad i'r HCPC, sydd wedi cyflawni cynnydd sylweddol ers llunio ein Strategaeth bedair blynedd yn ôl.

Rôl yr HCPC ydy gosod y safonau ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol ac, yn y pen draw, amddiffyn y cyhoedd. Rydym wedi cymryd camau sylweddol ymlaen yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf tuag at gyflawni nodau ein Cynllun Corfforaethol diwethaf, ac o ganlyniad i'r gwaith caled hwn rydym bellach yn bodloni 16 o blith 18 Safon Rheoleiddio Da'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA). Rydym wedi cyflawni 85% o'r cerrig milltir prosiectau a osodwyd gennym yn 2023-24. Mae hyn oll yn sicrhau ein bod yn gallu gwasanaethu'r cyhoedd yn well.

Un maes allweddol yn ein cynllun ar gyfer 2024-25 ydy parhau i wella'r profiad defnyddwyr i'r rhai sy'n cofrestru gyda ni, gan weithio tuag at gael nifer uwch o systemau sydd wedi'u hawtomeiddio a'u hintegreiddio gan gynnwys gwirio dogfennau a hunaniaethau. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi'r sector iechyd a gofal ehangach ym maes allweddol cynllunio'r gweithlu drwy rannu ein data a'n canfyddiadau, cydweithio ar recriwtio rhyngwladol, a pharhau â'n rhaglen waith ar diwtoriaethau.

Mae Cynllun Corfforaethol eleni y cydweddu â'r chwe maes blaenoriaeth strategol a amlinellwyd yn ein Strategaeth Gorfforaethol. Mae'n nodi sut y byddwn yn parhau i wneud cynnydd ym mhob maes blaenoriaeth yn 2024-25 a'r hyn rydym yn anelu at ei gyflawni. Wrth i ni ddechrau ystyried llunio ein strategaeth gorfforaethol nesaf, rwy'n hyderus bod y bobl, y prosesau a'r cynlluniau iawn yn eu lle i'n galluogi i gamu tuag at ddyfodol mwy uchelgeisiol, gan gofleidio technoleg uwch a ffyrdd newydd o weithio, gyda diwygio rheoleiddio yn sail i'r cyfan.

Ni allai ein cynnydd fel sefydliad fod wedi'i gyflawni heb waith caled ac ymroddiad tîm yr HCPC, ac rwyf wedi mwynhau gweithio gyda nhw'n fawr dros y naw mis diwethaf. Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio i gyflawni'r cynllun hwn, ac i sicrhau y bydd y cyhoedd yn gallu cyrchu gofal o ansawdd uchel yn ddiogel ac yn hyderus.

Bernie O'Reilly

# Pwy ydyn ni

Cafodd yr HCPC ei sefydlu dan adran 60 Deddf Iechyd 1999 yn rheoleiddiwr ar gyfer proffesiynau iechyd a gofal yn y Deyrnas Unedig.

## Ein rôl ydy amddiffyn y cyhoedd. Rydym cyflawni hyn drwy:

- osod y safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, sgiliau proffesiynol, ymddygiad, perfformiad a moeseg a datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer 15 o broffesiynau gofal iechyd;
- cadw Cofrestr o weithwyr proffesiynol sydd yn bodloni'r safonau hyn;
- cymeradwyo rhaglenni addysg y mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol eu cwblhau cyn cofrestru; a
- gweithredu pan na fydd y rhai sydd wedi cofrestru yn bodloni ein safonau.

## Rydym yn rheoleiddio:

| | | |
|---|---|---|
| Therapyddion celf | Gwyddonwyr biofeddygol | Ciropodyddion / podiatryddion |
| Gwyddonwyr clinigol | Deietegwyr | Cyflenwyr cymhorthion clyw |
| Therapyddion galwedigaethol | Ymarferwyr adrannau llawfeddygol | Orthoptyddion |
| Parafeddygon | Ffisiotherapyddion | Ymarferwyr seicoleg |
| Prosthetwyr / orthotyddion | Radiograffwyr | Therapyddion iaith a lleferydd |

Mae ein gweledigaeth, ein diben a'n gwerthoedd yn sail i bopeth a wnawn

## Ein Gweledigaeth

*Bod yn rheoleiddiwr gofalgar sydd yn cyflawni ar lefel uchel, yn gallu addasu ac sydd yn sicrhau y diogelir y cyhoedd drwy reoleiddio cryf sydd yn seiliedig ar dystiolaeth*

## Ein Diben

*Hyrwyddo rhagoriaeth yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio a dyrchafu gofal o ansawdd uchel y gall y cyhoedd ei gyrchu yn ddiogel a hyderus.*

## Ein gwerthoedd:

### Teg

bod yn onest, agored a thryloyw

### Tosturiol

trin pobl â pharch, empathi a gofal

### Cynhwysol

cydweithio ag eraill a hyrwyddo amrywiaeth

### Blaengar

ceisio cyfleoedd i fod yn greadigol a meithrin blaengaredd er mwyn gwella ein perfformiad


# Ein Strategaeth Gorfforaethol 2021–26

Bydd y ddwy flynedd nesaf yn dod â ni at ddiwedd ein strategaeth pum-mlynedd.

Cafodd y strategaeth pum-mlynedd ei llunio ar y cyd â'n rhanddeiliaid - cleifion a defnyddwyr gwasanaethau, y rhai sydd wedi cofrestru gyda ni, partneriaid, cyrff proffesiynol, darparwyr addysg, undebau llafur a chyflogwyr – drwy wrando a chydweithio â nhw.

Er mwyn cyflawni gwaith craidd HCPC yn hyrwyddo diogelwch y cyhoedd a rheoleiddio effeithiol, gwnaethom ddatblygu chwe maes gwaith blaenoriaeth, ein nodau ar gyfer y meysydd hyn a ble roeddem yn disgwyl bod ar ddiwedd cyfnod y strategaeth pum-mlynedd yn 2026.

- Gwella ac arloesi'n barhaus
- Hyrwyddo ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel
- Datblygu dealltwriaeth a dylanwadu
- Bod yn weladwy, ymgysylltu a bod yn hyddysg
- Datblygu sefydliad cydnerth, iach, galluog a chynaliadwy
- Hyrwyddo gwerth rheoleiddio






# Cyd-destun Cynllun Corfforaethol 2024–25

Mae’r Cynllun Corfforaethol hwn yn gosod y prif gerrig milltir ar gyfer y 12 mis nesaf (BA 2024–25). Byddwn yn parhau hefyd i ymgysylltu â’n rhanddeiliaid i gael eu hadborth ynglŷn â pha mor llwyddiannus rydym yn cyflawni ac yn gweithredu yn y meysydd gwaith allweddol a nodwyd yn ein strategaeth.

Yn ogystal â’r gwaith a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol hwn, bydd y gwaith dydd i ddydd pwysig a wnawn ar draws y sefydliad er mwyn diogelu’r cyhoedd yn parhau. Bydd ein gweithgaredd rheoleiddio craidd yn 2024-25 yn cynnwys:

## Ein gwaith yn 2024-25

Asesu a chymeradwyo
**100**
o raglenni addysg

Rydym yn rhagweld y byddwn yn derbyn
**21,400**
o geisiadau newydd i gofrestru

Digwyddiadau byw a rhithiol i gyrraedd tua
**15,000**
o randdeiliaid

Adnewyddu
**124,566**
o gofrestriadau yn rhan o’r cylch dwy-flynedd

Disgwyliwn y byddwn yn rhestru
**320**
o Wrandawiadau Terfynol o Sylwedd

Ymateb i
**1,000**
o ymholiadau polisi a moeseg ynglŷn â’n safonau

Disgwyliwn y byddwn yn derbyn
**1,900**
o bryderon addasrwydd i ymarfer newydd

Cynnal
**2,863**
o archwiliadau DPP

Ni fyddai modd cyflawni’r holl waith hwn heb ein gweithwyr cyflogedig a’n partneriaid ymroddgar, ac mae gan bob un ohonynt rôl bwysig i’w chyflawni yn gwneud ein strategaeth yn llwyddiant ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein diben rheoleiddiol o ddiogelu’r cyhoedd a hyrwyddo ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel ar draws y 15 proffesiwn rydym yn eu rheoleiddio.

# 1 Gwella ac arloesi’n barhaus

Gwella ein perfformiad yn ôl Safonau Rheoleiddio Da’r PSA ac arloesi ar draws pob un o’n swyddogaethau rheoleiddio er mwyn darparu gwell profiad defnyddwyr



Dros dair blynedd gyntaf ein Strategaeth Gorfforaethol 2021–26, rydym wedi gwella ein perfformiad yn ôl Safonau Rheoleiddio Da’r PSA yn sylweddol.

Rydym bellach yn bodloni 16 o’r 18 safon wedi i ni adennill dau o’r safonau addasrwydd i ymarfer (FTP) ac un safon sy’n gysylltiedig â chofrestru, a chyflawni’r safon mewn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) am y tro cyntaf.

Ein nod yw adennill y ddwy safon FTP, ac rydym yn hyderus ein bod yn debygol o fodloni 17 o’r 18 o Safonau Rheoleiddio Da eleni.

Mae’r gwelliannau mewn perfformiad a gwasanaeth a gyflawnwyd gennym yn golygu ein bod nawr mewn sefyllfa fwy sefydlog i allu cynllunio ar gyfer dyfodol uchelgeisiol, gan wneud y defnydd gorau o dechnoleg i ddarparu profiad defnyddwyr gwell i’r rhai sy’n cofrestru gyda ni a phawb sy’n rhyngweithio â’r HCPC.

Bydd y gweithgareddau a gynlluniwyd gennym ar gyfer 2024–25 yn rhoi cychwyn i’n gwaith o baratoi a datblygu ar gyfer y dyfodol.

# Gwella ac arloesi’n barhaus

## Yn 2024–25 byddwn yn gweithredu ar y nod hwn drwy:

### Profiad Defnyddwyr

- Cwmpasu a chynllunio profiad defnyddwyr yn ein dyfodol gan ganolbwyntio ar gael gwasanaethau sydd ar-lein, yn hunanwasanaeth, wedi’u hawtomeiddio a’u hintegreiddio. Bydd y gwaith hwn yn cael ei lywio gan ganlyniad yr adolygiad a gynhelir yn Ch4 BA 2023–24.
- Peilota a phrofi opsiynau ar gyfer defnyddio technoleg megis Deallusrwydd Artiffisial (DA) er mwyn gwella ansawdd, cysondeb, ac effeithlonrwydd ein hymatebion i ymholiadau.
- Gweithredu egwyddorion Tôn y Llais yn y cyfathrebiadau gan ein tîm Cofrestru, gan ddatblygu ar sail yr hyn a roddwyd ar waith gennym eisoes o ran Addasrwydd i Ymarfer.
- Gweithredu’r strwythurau timau newydd yn llawn yn yr adran Cofrestru.
- Rhoi system ffonau newydd ar waith yn yr adran Addasrwydd i Ymarfer.
- Diweddaru ein canolfan gyswllt a’n pyrth ar-lein er mwyn darparu opsiynau Cymraeg yn unol â Safonau newydd Y Gymraeg.

### Partneriaid

- Yn dilyn adolygiad o fodel gweithredu Partneriaid[1] yr HCPC, datblygu cynlluniau wedi’u costio ar gyfer y tymor canol gan ystyried datblygiadau cyfreithiol diweddar sy’n galluogi gwelliannau pellach o ran ansawdd a rheolaeth ariannol.

### Addysg

- Defnyddio mwy o’r data sydd ar gael gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, er mwyn llywio gweithgareddau sicrhau ansawdd addysg ac i gynorthwyo gyda rhagolygon ariannol ar gyfer incwm cofrestru yn y dyfodol.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector er mwyn lleihau’r baich rheoleiddio i ddarparwyr addysg, gan ddal darparwyr a rhaglenni addysg at safonau rheoleiddio uchel.


### Addasrwydd i Ymarfer

- Gweithredu ac ymgorffori newidiadau i’n model gweithredu a’n prosesau FTP er mwyn cefnogi’r gwaith o gyflwyno ymchwiliadau mewnol lle rhoddir mwy o bwyslais ar y camau cynnar, gan gynnwys sefydlu tîm cyfreithiol newydd.
- Gweithredu newidiadau i’n system rheoli achosion FTP er mwyn ei gwneud yn gydnaws â’n model gweithredu a’n prosesau newydd.
- Adolygu a sicrhau’r gorau o’n prosesau ar gyfer amserlennu a rheoli achosion cyn gwrandawiadau, er mwyn lleihau’r amser a gymerir i restru ar gyfer gwrandawiad terfynol.
- Adolygu ein polisi cosbau er mwyn sicrhau bod ein canllawiau i aelodau paneli yn gyfoes ac yn parhau i’w cynorthwyo i wneud penderfyniadau sydd yn deg, yn gyson, ac yn dryloyw.

1.Partneriaid ydy’r rhai sydd yn cofrestru gyda’r HCPC, aelodau o’r cyhoedd a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sydd yn cyfrannu eu harbenigedd i’r HCPC ac yn cyflawni rolau pwysig yn y broses rheoleiddio.

# 2 Hyrwyddo ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel

Galluogi ein proffesiynau i gyrraedd ein safonau er mwyn iddynt allu addasu i newidiadau yn y modd y caiff ymarfer iechyd a gofal ei ddarparu, gan osgoi niwed i ddefnyddwyr y gwasanaethau.



Yn 2023–24, cynhaliom gyfres o weithdai ymgynghori a llwyddom i ymgysylltu â thros 200 o randdeiliaid ynglŷn â'n cynlluniau i adolygu'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg (SCPEau).

Gwnaethom ddiweddaru ein canllawiau i'r rhai sydd wedi cofrestru ynglŷn â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol hefyd. Mae'r SCPEau yn gosod y safonau ar gyfer yr ymddygiadau sy'n ddisgwyliedig gan bobl ar Gofrestr yr HCPC, a daw'r safonau newydd i rym ar 1 Medi 2024.

Yn 2024–25, byddwn yn cefnogi'r rhai sydd wedi cofrestru gyda ni a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth i'r SCPEau newydd gael eu rhoi ar waith.

Gan ddatblygu ar sail llwyddiant ein dull o adolygu'r SCPEau, byddwn yn cynnal adolygiad o'n safonau addysg a hyfforddiant (SETau) yn 2024–25.

Rôl hollbwysig sydd gennym fel rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol ydy gosod y safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i bob un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig ddechrau gweithredu eu cynlluniau ar gyfer eu gweithluoedd.

Byddwn yn ymgysylltu'n helaeth cyn mynd i ymgynghoriad er mwyn ceisio safbwyntiau ein rhanddeiliaid ynglŷn â'r SETau diwygiedig, gan gynnwys meysydd megis y defnydd o dechnoleg, ansawdd lleoliadau gwaith, a chynaliadwyedd.

# Hyrwyddo ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel

Yn 2024–25 byddwn yn gweithredu ar y nod hwn drwy:

## Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg (SCPEau)

- Rhoi'r safonau diwygiedig ar gyfer ymddygiad, perfformiad a moeseg, sydd yn dod i rym o fis Medi 2024, ar waith.
- Hyrwyddo a chynorthwyo'r rhai sydd wedi cofrestru i ymgorffori'r canllawiau diwygiedig ynglŷn â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn eu gwaith.
- Diweddaru'r deunyddiau canllaw ategol mewn perthynas â'r SCPEau.
- Darparu ein rhaglen Proffesiynoldeb wrth Ymarfer, sydd yn cynorthwyo'r rhai sydd wedi cofrestru a chyflogwyr i ymgorffori a chyflawni'r SCPEau yn eu gwaith.

## Safonau addysg a hyfforddiant (SETau)

- Cychwyn adolygiad o'r SETau, gan ddechrau gyda cham ymgysylltu cyn ymgynghoriad er mwyn casglu safbwyntiau rhanddeiliaid, gan ganolbwyntio ar faterion newydd a rhai sydd yn dod i'r amlwg megis y defnydd o dechnoleg a Deallusrwydd Artiffisial.
- Sicrhau a chynnal partneriaeth allanol er mwyn darparu llais defnyddwyr y gwasanaethau yng ngwaith yr HCPC (gweler nod strategol 4) a fydd yn llywio'r adolygiad o'r SETau.

## Gofynion o ran y Saesneg

- Yn dilyn yr ymgynghoriad ynglŷn â gofynion o ran y Saesneg a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2024, byddwn yn:
    - Cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad a chynigion terfynol ar gyfer newidiadau i'n gofynion o ran y Saesneg, i rai sydd yn ymgeisio i ymuno â Chofrestr yr HCPC drwy ein trywydd rhyngwladol tuag at gofrestru.
    - Rhoi'r gofynion newydd ar waith (gan gynnwys unrhyw newidiadau system cysylltiedig) o hydref 2024.
- Rhagor o gefnogaeth a phartneru gyda chyflogwyr i ddylanwadu ar greu diwylliannau ac amgylcheddau gweithio cefnogol i'r rhai sydd wedi cofrestru.
- Ymateb yn well i wahaniaethau o ran darpariaeth iechyd ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig drwy ein Gwasanaeth Cyswllt Proffesiynol sydd wedi'i ehangu.
- Gwell dealltwriaeth ac ymgorffori o safbwynt ein Safonau ac ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel ymhlith y rhai o'r Deyrnas Unedig sydd wedi cofrestru a rhai rhyngwladol drwy #myhcpcstandards a rhaglenni *ymuno â gweithlu'r Deyrnas Unedig*

# 3 Datblygu dealltwriaeth a dylanwadu

Dysgu o ddata ac ymchwil er mwyn llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau a rhannu canfyddiadau er mwyn diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.



Mae bod yn rheoleiddiwr sy'n gweithio ar sail tystiolaeth yn elfen ganolog o'n Strategaeth Gorfforaethol. Yn 2024–25, wrth i ni wella ein seilwaith mewnol i'n galluogi i ddefnyddio ein data yn fwy effeithiol, byddwn yn parhau i ddatblygu a chyhoeddi ein hymchwil a'n dadansoddiadau.

Yn dilyn ein gwaith ar yr SCPEau diwygiedig yn 2023–24, a oedd yn cynnwys diweddaru ein safonau mewn perthynas â ffiniau proffesiynol, byddwn yn cynnal ymchwil ar ffiniau proffesiynol, gan roi sylw penodol i gamymddygiad rhywiol. Bydd hyn yn cynorthwyo ein gwaith Addasrwydd i Ymarfer ond hefyd ein gwaith rheoleiddio ymhellach i fyny'r gadwyn ac yn hwyluso ein symudiad tuag at ddull rheoleiddio sydd yn canolbwyntio ar atal.

Yn 2023, am y tro cyntaf, roedd modd i ni gynnwys dadansoddiad o ddata EDI yn ein Hadroddiad Blynyddol FTP. Yn 2024–25, byddwn yn datblygu'r dadansoddi hwn ymhellach, wrth i ni ddechrau ffurfio darlun mwy gwybodus ynglŷn ag effeithiau ffactorau EDI ar y broses FTP a'r canlyniadau.

Mae'r HCPC mewn safle unigryw gan fod gennym ddata am dros 300,000 o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol. Rydym wedi cyhoeddi dadansoddad o gyfraddau cadw ein trywyddau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, ac yn 2024–25, byddwn yn cyhoeddi'r set ddiweddaraf fydd yn ymwneud â chofrestriadau newydd o 2018 i 2020 wedi'u dilyn hyd at 2024. Bydd rhannu ein dadansoddiad o gyfraddau cadw yn helpu'r rhai sydd yn gyfrifol am gynllunio'r gweithlu yn y sector iechyd a gofal ehangach, yn ogystal â llywio ein gwaith ein hunain ar diwtoriaethau.

# Datblygu dealltwriaeth a dylanwadu

Yn 2024–25 byddwn yn gweithredu ar y nod hwn drwy:

## Barhau i wella ansawdd a seilwaith data

- Gan adeiladu ar sylfeini'r gwaith a gynhaliwyd yn 2023–24 i ddatblygu ein gallu i ymdrin â data, byddwn yn sefydlu isafswm ar gyfer setiau data ar gyfer ein swyddogaethau rheoleiddio craidd ac yn mynd i'r afael â bylchau sydd yn parhau o ran ansawdd a chysondeb y setiau data hynny.

- Byddwn yn llunio map o'r trywydd tuag at gyflawni safon uchel yn ein defnydd o ddata i adrodd am gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio, ac yn datblygu ein gallu i ymdrin â data yn fewnol ymhellach.

## Gweithgaredd ymchwil newydd

- Comisiynu ymchwil i effaith y defnydd moesegol cynyddol o Ddeallusrwydd Artiffisial gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar reoleiddio proffesiynol.

- Yn dilyn y diweddariad ynglŷn â chynnal ffiniau proffesiynal priodol yn ein hadolygiad o SCPEau, byddwn yn comisiynu ymchwil i ystyried y maes hwn ymhellach gan roi sylw penodol i gamymddygiad rhywiol.

## Canfyddiadau a Dadansoddeg

- Cyhoeddi pob un o'r 15 taflen ddata ar gyfer y proffesiynau penodol ar yr un pryd..

- Asesu prosesau'r HCPC drwy lens EDI, gan gynnwys dadansoddi canlyniadau achosion FTP yn ôl nodweddion gwarchodedig.

- Cyhoeddi ail gyfres y dadansoddiadau o gyfraddau cadw'r rhai sydd yn cofrestru o'r newydd, ar gyfer trywyddau'r rhai sydd wedi'u hyfforddi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

- Gwella a chynyddu faint o ddadansoddi ar y Gofrestr sydd ar gael ar wefan yr HCPC. Er enghraifft, disgrifiadau demograffig o boblogaethau'r rhai sydd wedi cofrestru gan gynnwys oed, rhyw a thrywydd cofrestru.

- Sefydlu mentrau rhannu data dwy-ffordd gyda rhanddeiliaid allweddol.

# 4 Bod yn weladwy, ymgysylltu a bod yn hyddysg

Rydym yn rheoleiddio, ac yn gwneud a chyfleu penderfyniadau sydd yn seiliedig ar ddealltwriaeth ddofn o'r amgylchedd y mae'r rhai sydd wedi cofrestru gyda ni, cyflogwyr a darparwyr addysg yn gweithio ynddo.



Yn 2023–24, gwnaethom barhau i ymgysylltu a rhannu gwybodaeth â'n rhanddeiliaid, o'r rhai sydd wedi cofrestru i ddefnyddwyr y gwasanaethau, cyrff proffesiynol, cyflogwyr, a darparwyr addysg drwy ein rhaglen o ddigwyddiadau, gweminarau ac erthyglau, yn ogystal â gwaith ein Gwasanaeth Cyswllt Proffesiynol.

Yn 2024–25, byddwn yn cryfhau ein gwaith ymgysylltu gyda'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau, drwy bartneriaeth â Chymdeithas y Cleifion er mwyn integreiddio safbwyntiau cleifion ynglŷn â phrosiectau a mentrau allweddol yr HCPC.

Y llynedd, gwnaethom gychwyn rhaglen o ymweliadau safle gan ein Prif Weithredwr i weithleoedd rhai sydd wedi cofrestru gyda ni. Rydym yn bwriadu parhau i wneud hynny yn 2024– 25. Byddwn hefyd yn cynnal gwaith ymgysylltu allanol ehangach mewn digwyddiadau sectorol er mwyn ychwanegu llais yr HCPC at bynciau sydd yn cael effaith ar y system iechyd a gofal yn ei chyfanrwydd gan gynnwys cynllunio'r gweithlu, diogelwch cleifion, a'r defnydd o dechnoleg.

Erbyn hyn, rydym hanner ffordd drwy ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (2021–26) ac rydym wedi adeiladu ar sylfeini creiddiol ein Cynllun Gweithredu er mwyn casglu a dadansoddi mwy o ddata.

Y llynedd, gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad o ffactorau EDI ac atgyfeiriadau FTP, ac yn 2024–25, byddwn yn datblygu ymhellach ar y gwaith hwn er mwyn edrych ar effaith ffactorau EDI ar ganlyniadau FTP a phenderfyniadau cofrestru. Byddwn hefyd yn datblygu fframwaith sydd yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer asesu darparwyr addysg fel rhan o'n gwaith yn sicrhau ansawdd addysg.

# Bod yn weladwy, ymgysylltu a bod yn hyddysg

## Yn 2024–25 byddwn yn gweithredu ar y nod hwn drwy:

### Strategaeth Defnyddwyr Gwasanaethau'r HCPC

- Sefydlu partneriaeth waith gyda Chymdeithas y Cleifion. Bydd hyn yn cynnwys recriwtio panel cleifion, grwpiau ffocws, a rhannu ymgynghoriadau a diweddariadau'r HCPC drwy lwyfannau Cymdeithas y Cleifion. Bydd y bartneriaeth hon hefyd yn llywio ein gwaith ar yr adolygiad o'r SETau.

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Parhau i ddarparu'r Strategaeth EDI a'r Cynllun Gweithredu.
- Cychwyn y gwaith angenrheidiol er mwyn cynnal Safon EDI ddiwygiedig y PSA gan gynnwys casglu data EDI'r rhai sy'n cyflwyno cwynion FTP, a dadansoddi data EDI ar gyfer penderfyniadau cofrestru.
- Datblygu fframwaith sydd yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer asesu perfformiad darparwyr addysg yn ôl ein safonau addysg gyda chysylltiad ag EDI.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- Datblygu a gweithredu rhaglen flaengar ar gyfer ymgysylltu a gwrando ar y rhai sydd wedi cofrestru, cyflogwyr, a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â materion allweddol gan gynnwys diogelwch cleifion a chynllunio'r gweithlu.
- Mesur a gwerthuso effaith ein ffora ymgysylltu presennol, megis fforwm y cyrff proffesiynol.

### Cynllun Prentisiaethau'r Cyngor

- Ystyried yr hyn a ddysgwyd o bedair blynedd diwethaf y cynllun a gwerthuso ei effaith ar yrfaoedd ein prentisiaid blaenorol.
- Rhannu'r hyn a ddysgwyd gennym a'n canfyddiadau â rheoleiddwyr a sefydliadau eraill er mwyn ehangu eu heffaith.
- Datblygu rhwydwaith alumni Prentisiaethau'r Cyngor.

# 5 Datblygu sefydliad cydnerth, iach, galluog a chynaliadwy

Mae ein gweithwyr cyflogedig yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, ac yn gallu cyfrannu'n llawn. Mae'r sefydliad yn gydnerth ac yn gallu addasu'n gyflym i newidiadau yn yr amgylchedd allanol.



Yn 2023–24, yn dilyn ymarfer ymgynghori cynhwysfawr, gwnaethom gyflwyno cynnydd hanfodol yn ein ffïoedd er mwyn sicrhau ein cynaliadwyedd ariannol, ynghyd ag ymrwymiad i gynnal adolygiadau rheolaidd ynglŷn â chynyddu ffïoedd fesul tipyn yn y dyfodol. Mae hyn wedi ein galluogi i osod cyllideb gytbwys sydd yn cyllido buddsoddiad mewn gwelliannau pellach ac yn sicrhau y gallwn barhau i fodloni safonau rheoleiddio a gwasanaethau creiddiol.

Gwnaethom barhau i wneud cynnydd yn unol â'n Strategaeth Pobl gan gynnwys lansio cynllun mentora o chwith, a rhaglenni dysgu a datblygu newydd i aelodau staff ar bob lefel. Rydym hefyd yn cynnal arolygon pwls rheolaidd sydd yn dangos lefelau da o ymgysylltiad gan staff, ac yn tynnu sylw at feysydd ar gyfer gwella ymhellach.

Gwnaethom gyhoeddi ein datganiad cynaliadwyedd cyntaf yn 2023, oedd yn amlinellu ein hymrwymiad hirdymor i ddod yn sefydliad sero net, a'n symudiad i dariff carbon niwtral, adnewyddadwy ar gyfer ein defnydd o ynni fel sefydliad.

Rydym wedi llwyddo i gynnal lefel uchel o wasanaeth ac argaeledd ar gyfer ein systemau TG hollbwysig, ac wedi gwneud cynnydd pellach tuag at eu trosglwyddo i lwyfannau diogel, cydnerth a leolir mewn cwmwl. Rydym hefyd wedi cychwyn a chyflawni nifer o raglenni newid, gan gynnwys porth recriwtio newydd a fydd yn ein helpu i ddenu ymgeiswyr o safon uchel a gwelliannau pellach i'n system rheoli achosion FTP. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2024–25.

# Datblygu sefydliad cydnerth, iach, galluog a chynaliadwy

Yn 2024–25 byddwn yn gweithredu ar y nod hwn drwy:

## Diweddaru Model Ffïoedd yr HCPC

- Datblygu fframwaith ar gyfer adolygiadau ffïoedd rheolaidd er mwyn bod yn eglur ynglŷn â'n hanghenion cyllido yn y dyfodol a sicrhau bod yr HCPC yn parhau i gael ei ariannu'n ddigonol.
- Ymgynghori ynglŷn â newidiadau i ffïoedd a argymhellir gan yr adolygiad rheolaidd nesaf, i'w gweithredu yn 2025.

## Strategaeth Pobl

- Datblygu sgiliau a galluoedd ar gyfer datblygu gyrfaoedd ar bob lefel.
- Ymhlith y gweithgareddau, bydd cryfhau ein fframwaith cynllunio olyniaeth, rhoi ein porth recriwtio newydd ar waith, a chyflwyno rhaglenni dysgu a datblygu newydd.
- Byddwn hefyd yn monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn galluogi grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i wneud symud ymlaen.

## Trawsnewid digidol

- Yn unol â'n strategaethau digidol a chorfforaethol, datblygu cynlluniau i weithredu ar yr hyn a ddysgwyd o adolygiad yn 2023–24 o'n systemau a'n llwyfannau rheoleiddio presennol.

## Moderneiddio diogelwch TG

- Diweddaru ein systemau gyda galluoedd a nodweddion newydd a gynhwysir ym meddalwedd diogelwch Microsoft a chryfhau amddiffynfeydd seibr yn unol â'r arferion gorau sydd yn esblygu.

## Cynaliadwyedd


- Parhau â'n cynydd tuag at yr uchelgais sero net hirdymor a amlinellwyd yn natganiad cynaliadwyedd corfforaethol yr HCPC.

## Business Central Cam 2

- Ymgorffori system gyllid Business Central sydd newydd gael ei rhoi ar waith ar draws yr HCPC, gan wneud y gorau o'r manteision y mae'n eu cyflwyno i brosesu trafodion a sut y gall y rhai sy'n cofrestru dalu eu ffïoedd.

# 6 Hyrwyddo gwerth rheoleiddio

Mae'r cyhoedd, y rhai sydd wedi cofrestru, myfyrwyr a chyflogwyr yn deall gwerth a phwysigrwydd gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol sydd wedi'u rheoleiddio.



Fel sefydliad, rydym eisiau hyrwyddo gwerth rheoleiddio. Mae'r HCPC yn darparu ac yn ysgogi mentrau pwysig o ran addysg a datblygu proffesiynol parhaus, gan gefnogi'r rhai sydd wedi cofrestru drwy gydol eu gyrfa. Fel yr amlinellir yn ein trydydd blaenoriaeth strategol, gallwn hefyd ddefnyddio'r data sydd gennym fel rheoleiddiwr i dros 330,000 o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol er mwyn rhoi gwybodaeth a chymorth i'n rhanddeiliaid.

Y llynedd, gwnaethom gyhoeddi ein Hegwyddorion Tiwtoriaethau, er mwyn cefnogi'r rhai sydd wedi cofrestru gyda'r HCPC ar adegau allweddol o drawsnewid yn eu gyrfaoedd, ac i'w helpu wrth iddynt ddarparu gofal diogel, tosturiol ac o ansawdd uchel. Yn 2024–25, byddwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r egwyddorion hyn ymhlith cyflogwyr. Byddwn hefyd yn parhau i gynorthwyo rhai sy'n cofrestru o'r newydd o'r trywydd rhyngwladol i drosglwyddo'n llwyddiannus i ymarfer yn y Deyrnas Unedig drwy ein *Rhaglen Ymuno â Gweithlu'r Deyrnas Unedig*.

Eleni, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad addysg blynyddol cyntaf ers sefydlu ein model sicrhau ansawdd cyfredol, sydd yn canolbwyntio ar themâu dysgu allweddol i ddarparwyr addysg. Yn 2024–25, byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad 'cyflwr y genedl' ar gyfer blwyddyn academaidd 2023–24 ac yn ymgysylltu â'r sector er mwyn rhannu rhagor o'r hyn a ddysgwyd.

Mae ein cefnogaeth yn cychwyn cyn i yrfaoedd y rhai sydd yn cofrestru gyda ni ddechrau. Yn 2024–25, byddwn yn cynyddu ein hymgysylltiad â myfyrwyr, gan gynnwys ehangu ar ddarpariaeth ein *Rhaglen dod yn weithiwr iechyd a gofal proffesiynol*, a chyflwyno ein trydedd gystadleuaeth i fyfyrwyr yn seiliedig ar yr SCPEau diwygiedig.

# Hyrwyddo gwerth rheoleiddio

Yn 2024–25 byddwn yn gweithredu ar y nod hwn drwy:

## Ymgysylltu â chyflogwyr

- Hyrwyddo ein hegwyddorion tiwtoriaethau ac annog cyflogwyr i ddarparu rhagor o gefnogaeth i'r rhai sydd wedi cofrestru o'r newydd neu sydd yn dychwelyd i ymarfer.
- Hyrwyddo ac annog symudiad tuag at ddiwylliannau gweithleoedd mwy cadarnhaol i'r rhai sydd wedi cofrestru gyda ni.

## Strategaeth cyfathrebu â'r rhai sydd yn cofrestru

- Cynnal ymgyrch gyfathrebu integredig i gynyddu ymwybyddiaeth ac i ddarparu dealltwriaeth o'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg diwygiedig.
- Lansio cynnwys newydd i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o'n gofynion datblygu proffesiynol parhaus, i'r rhai sydd wedi cofrestru ac i'w cyflogwyr.
- Parhau i wella profiad y rhai sydd wedi cofrestru drwy gyfathrebu tosturiol a chynhwysol, gan gynnwys creu cynnwys cefnogol newydd i'r rhai sydd yn ymuno â'r Gofrestr.
- Darparu gwybodaeth a mynegbostio i'r rhai sydd wedi cofrestru ynglŷn ag ymarfer yn gynaliadwy.

## Cofrestriadau rhyngwladol

- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol a chyflogwyr sydd yn recriwtio ac yn cefnogi rhai sydd yn cofrestru drwy'r trywydd rhyngwladol.


## Adrodd yn flynyddol ar addysg

- Ymgysylltu â'r sector addysg er mwyn rhannu canfyddiadau o'r adroddiad addysg blynyddol.
- Cyhoeddi adroddiad 'cyflwr y genedl' ar gyfer blwyddyn academaidd 2023–24 ac ymgysylltu â'r sector er mwyn rhannu rhagor o'r hyn a ddysgwyd.

## Myfyrwyr

- Ehangu darpariaeth ein *Rhaglen dod yn weithiwr iechyd a gofal proffesiynol* i fyfyrwyr, sydd yn cefnogi dysgu ynglŷn â phroffesiynoldeb a gwerth rheoleiddio.
- Cynnal y gystadleuaeth nesaf i fyfyrwyr, gan hyrwyddo ac annog ymgysylltiad â'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg diwygiedig.

# Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)



Rydym wedi parhau i gyflawni'r camau gweithredu sydd yn cadw Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ganolog i'n gweithgareddau rheoleiddio. Rydym yn parhau i ddiwallu anghenion Safon EDI y PSA ac rydym wedi ymgysylltu â'r PSA wrth iddynt ddatblygu eu dull newydd o asesu perfformiad rheoleiddwyr mewn perthynas â'r Safon EDI.

Gyda chefnogaeth ein Fforwm EDI allanol, gwnaethom ddiweddaru ein SCPEau, gan ganolbwyntio o ddifrif ar ein disgwyliadau ar y rhai sydd wedi cofrestru o safbwynt trin pobl yn deg. Gwnaethom hefyd gynnal nifer o grwpiau ymgynghori penodol er mwyn helpu i sicrhau bod y safonau newydd eu hunain yn deg ac yn ddealladwy i'r rhai sydd wedi cofrestru ac i aelodau'r cyhoedd o bob cefndir.

Fe lwyddom hefyd i fynd y tu hwnt i'n targed o gasglu gwybodaeth EDI gan 80% o'r rhai sydd wedi cofrestru gyda ni, a bellach mae gennym ddata EDI ar gyfer dros 90% o'r Gofrestr.

Golyga hyn fod gennym fynediad at set ddata gyfoethog i helpu i lywio polisïau a phrosesau'r HCPC.

Yn 2024–25, rydym yn bwriadu parhau â'n dadansoddiad o'r data hwn, gan geisio deall effaith ein gweithgareddau rheoleiddio ar grwpiau gwahanol gyda golwg ar un o'n gwerthoedd craidd, sef tegwch. Byddwn hefyd yn dechrau diweddaru ein SETau, gan ddatblygu ar sail yr adolygiadau diweddar o'n safonau eraill er mwyn cynyddu amlygrwydd a phwysigrwydd EDI.

Mae ein Cynllun Gweithredu EDI yn nodi'n fanylach sut rydym yn bwriadu cynnal y gwaith pwysig hwn er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y flwyddyn sydd yn dod.

# Diwygio rheoleiddio



Mae diwygio rheoleiddio yn rhaglen bellgyrhaeddol o waith i foderneiddio a gwella'r fframwaith cyfreithiol ar draws yr holl reoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol. Bydd yn cael effaith sylweddol, ac ar draws yr holl sefydliad, ar y ffordd y bydd yr HCPC yn gweithredu yn y dyfodol.

Mae'r Llywodraeth wrthi'n gweithio ar foderneiddio deddfwriaeth y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC). Croesawodd yr HCPC hyn fel rhan o broses ddiwygio ehangach, ynghyd â'r cyhoeddiad mai'r HCPC a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fydd nesaf. Rhyngddynt, mae'r HCPC a'r NMC yn rheoleiddio dros filiwn o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol, a bydd cyfundrefn gyfreithiol fodern yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i'n gallu i reoleiddio'n effeithlon. Rydym wedi parhau i weithio'n agos â'r DHSC, y rheoleiddwyr proffesiynol eraill a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â deddfwriaeth y GMC, a fydd yn ffurfio'r glasbrint ar gyfer ein diwygiadau ni.

Ar sail ein gwaith paratoadol, rydym yn gwybod y bydd diwygio rheoleiddio yn rhaglen waith dros sawl blwyddyn a fydd yn effeithio ar bob rhan o'r sefydliad. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr HCPC sicrwydd digonol ynglŷn â'r amserlen ar gyfer diwygio rheoleiddio gan y Llywodraeth. Tra pery'r sefyllfa honno, mae angen i ni barhau i fuddsoddi yn natblygiad yr HCPC er mwyn sicrhau nad ydym yn colli momentwm yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Lle bo hynny'n berthnasol, byddwn yn sicrhau bod y buddsoddiadau a wnawn yn ystyried newidiadau a ddaw yn y dyfodol o ran diwygio rheoleiddio.

Os caiff yr amserlen ar gyfer diwygio rheoleiddio ei dwyn ymlaen yn gynharach, yna byddwn yn ystyried pa feysydd yn y Cynllun Corfforaethol y gallwn eu dadflaenoriaethu er mwyn dechrau cyllido'r gwaith ar ddiwygio rheoleiddio. Mae angen diwygio rheoleiddio ar yr HCPC er mwyn i ni barhau ar ein taith yn gwella, a gwasanaethu'r rhai sydd wedi cofrestru a'r cyhoedd yn well.